# Y Pwyllgor Deisebau

# PET(3) 06-09 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 31 Mawrth 2009**
**Amser: 9.31am- 10.33am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Siân Phipps, Clerc

Alun Davidson, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Daeth ymddiheuriadau i law gan Mike German AC.

### 2. Deisebau newydd

### (i) P-03-203 P-03-203 Addysg bellach ar gyfer pobl ifanc sydd ag amhariadau cymhleth

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ofyn i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ystyried y ddeiseb hon.

### (ii) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i dynnu ei sylw at y ddeiseb hon rhag ofn ei fod yn bwriadu gwneud unrhyw waith ar effaith gymdeithasol y dirywiad economaidd;

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo am ei farn ynghylch y sefyllfa ym Mynwy, ac i ofyn a yw'n cymryd unrhyw gamau i gynorthwyo'r unigolion hynny sy'n chwilio am waith;

ysgrifennu at Adran Waith a Phensiynau'r DU i ofyn beth yw'r rhesymau y tu cefn i ad-drefnu'r canolfannau gwaith ynn Nghymru, Sir Fynwy yn arbennig, ac a yw'n fodlon gyda chanlyniad yr ad-drefnu hwn.

### 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-063 Gwahardd bagiau plastig

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach.

### (ii) P-03-081 Rheoliadau benthyciadau i fyfyrwyr

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

hysbysu'r deisebwyr ynghylch llythyr y Gweinidog;

ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dusgu Gydol Oes a Sgiliau i ganfod pryd y bydd adolygiad Adran Arloesi, Prifysgolion a Sgiliau'r DU yn cael ei gwblhau.

### (iii) P-03-085 Meddygfeydd yn Sir y Fflint

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn a fodlonwyd eu dyheadau ac a oes ganddynt hyder yn yr adolygiad y cyfeiriodd y Gweinidog ato;

ailymweld â'r ddeiseb hon mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### (iv) P-03-099 Llwybr aml-ddefnydd yn Nhalybont-ar-Wysg

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i wneud cais am y wybodaeth ddiweddaraf.

### (v) P-03-107 Papur dyddiol yn y Gymraeg

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach;

hysbysu'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ynghylch y ddeiseb hon.

### (vi) P-03-122 Chwarel Hafod

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach.

### (vii) P-03-124 Cysgliad

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth i wneud cais am y wybodaeth ddiweddaraf.

### (viii) P-03-143 Ysgol Penmaes

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gynhyrchu darn fideo byr ar gyfer y deisebwyr yn egluro'r hyn y mae'r Pwyllgor wedi ei ddysgu ynghylch y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus leol.

### (ix)P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn:

am fanylion yr ystyriaeth a roddodd i bryderon y grwpiau, megis Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion, ynghylch datblygiadau rhannu ffyrdd wrth ddrafftio ei strategaethau trafnidiaeth cynaliadwy.

pryd y bydd yn cyhoeddi ei strategaethau trafnidiaeth cynaliadwy.

### (x) P-03-145 Pris Tanwydd

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach.

### (xi) P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol gyda copi o'r llythyr diweddaraf oddi wrth y Gweinidog

cadw briff gwylio ac i ddychwelyd i'r ddeiseb yn yr haf.

### (xii) P-03-153 Celf corff

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn;

gofyn i'r Clerc ymchwilio'r posibilrwydd o sefydlu cofrestr o gynigion deddfwriaethol, i'w defnyddio gan Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau ar gyfer cyflwyno cynigion deddfwriaethol nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth.

### (xiii) P-03-156 Dal anadl wrth gysgu

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ddychwelyd i'r ddeiseb hon yn yr hydref, yn dilyn ail archwiliad a gyhoeddir gan y Gweinidog;

ceisio safbwynt y deisebwyr.

### (xiv) P-03-163 Gwellianau i'r A487

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

• gau'r ddeiseb hon gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach.

### (xv) P-03-166 Ysbyty Abertyleri

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ddisgwyl am ymateb Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent;

ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch rhestru'r prif adeilad a'r giatiau mynediad.

### (xvi) P-03-172 Fferi Abertawe/Cork

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

wahodd y prif ddeisebwr i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol;

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am fwy o wybodaeth ynghylch y drafodaeth a gafodd ei swyddogion gyda'r deisebwyr ac Associated British Prots i ailsefydlu'r llwybr, a'r cymorth a gynigwyd iddynt;

ysgrifennu at Associated British Ports i ofyn a yw'n hapus gyda lefel y cymorth a gafodd gan Lywodraeth Cymru.

### (xvii) P-03-184 Tocynnau rhatach ar fysiau

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach.

### (xviii) P-03-190 Dim ffordd liniaru yn Nyffryn Elái

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am fanylion y dystiolaeth a'r achos busnes oedd yn sail i'r penderfyniad i gynnig ffordd liniaru newydd ar gyfer y maes awyr.

### (xix) P-03-194 Gwasanaeth bws Cwm Rhymni

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach.

### (xx) P-03-202 Lwfans cynhaliaeth addysg

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddar am y ddeiseb hon.

**Camau gweithredu**

Cytunodd y Pwyllgor i:

hysbysu'r Pwyllgor Menter a Dysgu ynghylch y ddeiseb hon cyn iddo ddechrau craffu ar waith y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghylch y mater hwn.

**Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod yn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi)**

**4. Ymchwiliad byr i ddeiseb P-03-118 Cymdeithas Canŵio Cymru - trafod yr adroddiad drafft (10.30am - 11.00am)**

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad fel y'i drafftiwyd.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mawrth 2009**